**Cylch Gorchwyl Pwyllgor: Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi**

Yn adrodd i'r: Senedd

Cyfarfod: 4 gwaith y flwyddyn

*Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Tachwedd 2025*

| Aelodau: | Yn bresennol ar sail gwahoddiad: |
|---|---|
| Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (Cadeirydd) | Pennaeth Cynllunio |
| Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil (Dirprwy Gadeirydd) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Phennaeth y Llyfrgelloedd |
| Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gyfadran (Ymchwil) - Dyniaethau | Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth |
| Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gyfadran (Ymchwil) - Gwyddorau | Cynrychiolydd Adnoddau Dynol |
| Pennaeth / Dirprwy Bennaeth yr Academi Ddoethurol | Pennaeth Cyllid Ymchwil |
| Cadeirydd Panel Moeseg Ymchwil y Brifysgol | Pennaeth Gweithrediadau Academaidd |
| Rheolwr Monitro Ymchwil a'r FfRhY | Rheolwr Cynllunio Gofod, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd |
| Rheolwr Datblygu Ymchwil | Cynrychiolydd o Rwydwaith Ymchwilwyr Ar Ddechrau eu Gyrfa |
| Arweinydd Diwylliant Ymchwil | Cynrychiolydd o Rwydwaith Menywod ym maes Ymchwil |
| Arweinydd Thema: Hinsawdd, Amgylchedd a Natur | Cynrychiolydd Myfyrwyr PhD (trwy'r Academi Ddoethurol) |
| Arweinydd Thema: Technolegau Uwch | |
| Arweinydd Thema: Iechyd, Heneiddio a Lles | |
| Arweinydd Thema: Diwylliant, Treftadaeth a Chymunedau | |
| Os yw'r Cadeirydd yn cydsynio gellir gwahodd cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd ar ran yr aelodau. | Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd. |
| Cworwm: 4 aelod, gan gynnwys o leiaf y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd, ac o leiaf un Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gyfadran (Ymchwil) | Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd. |

**Diben:**

Pwrpas y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yw darparu arweinyddiaeth ar lefel sefydliadol wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r brifysgol. Sicrhau bod y Brifysgol yn darparu'r amgylchedd, yr adnoddau a'r staff i gyflawni ymchwil o ansawdd uchel. Hyrwyddo

diwylliant ymchwil ac arloesi bywiog ar draws pob cyfadran a sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni'r arferion gorau mewn ymchwil sy'n bodloni safonau a llywodraethu cyllidwyr.

Bydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn cynghori'r Senedd ar faterion yn ymwneud ag ymchwil, gan gynnwys strategaethau ymchwil y sefydliad a'r cyfadrannau; paratoi ac adolygu cyflwyniad y Brifysgol i'r FfRhY; adrodd am y grantiau ymchwil allanol a enillir, adrodd am y defnydd a wneir o grantiau mewnol a chynlluniau datblygu ymchwilwyr.

---

Datblygu dull strategol cydlynol (dull eu hunain neu ddiweddaru dull) ar gyfer cyflawni gweithgarwch ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel.

Cymeradwyo'r cynllun ymchwil ac arloesi o fewn y Cyfadrannau a chynorthwyo i'w weithredu, ac i hwyluso rhannu arferion gorau.

Datblygu a goruchwylio'r gwaith o weithredu cynllun strategol i gefnogi datblygiad gyrfa ymchwilwyr a diwylliant ymchwil.

Adolygu ac argymell newidiadau i brosesau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag ymchwil yn y Brifysgol.

Gweithredu a monitro cynnydd ar sail Cynllun Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol, gan gynnwys adolygiadau achlysurol o berfformiad y gwaith ymchwil ac arloesi ar draws y Brifysgol, a chytuno ar gamau gweithredu i wella ansawdd.

Goruchwylio'r paratoadau ar gyfer ymarferion Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, gan gynnwys, adolygu ac asesu cynnydd yn fewnol drwy'r tîm a'r gweithgorau FfRhY.

Adolygu'r gwaith o ddatblygu rhaglenni ymchwil ôl-raddedig, adolygu'r prosesau ar gyfer denu, derbyn a chynnydd Ymchwilwyr Doethurol, a monitro cyfraddau llwyddiant.

Hyrwyddo ac ymgorffori cydraddoldeb a chynhwysiant yn holl weithgareddau ymchwil ac arloesi'r Brifysgol, gan weithio gyda'r pwyllgorau Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant sefydledig.

Cloriannu a hyrwyddo arferion gorau mewn ymchwil ac arloesi, gan hyrwyddo llwyddiannau o ran ymchwil, meithrin cysylltiadau ac effaith.

Adrodd ar ymgynghoriadau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r ymchwil ac arloesi.

Adrodd ar flaenoriaethau ar gyfer offer cyfalaf mawr neu seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arloesi.

Nodi meysydd newydd o dwf a chyfleoedd posibl, yn enwedig mewn gweithgarwch amlddisgyblaethol ac adeiladu ar sylfaen y cryfderau presennol mewn gwaith ymchwil o ansawdd uchel.

---

**Gweithredu:**

Bob chwarter blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn amlinellu'r materion allweddol a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod y chwarter, gan ganolbwyntio'n benodol ar benderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y Senedd, yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddo yn rhan o'r cylch gwaith. Gall y Pwyllgor ystyried materion a gyfeirir ato gan y Cyngor, y Senedd, neu Weithrediaeth y Brifysgol.

Os yw'r pwyllgor yn cytuno ar argymhelliad ynglŷn â'r Strategaeth Ymchwil i'w gyflwyno i'r Cyngor, rhaid cyflwyno'r argymhelliad yn gyntaf i'r Senedd i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

---

**Gweithgorau:**

Gweithgor FfRhY

Diwylliant Ymchwil